Grantiau Trysorau’r Filltir Sgwâr (Rownd 2)

See all updates

Grantiau rhwng £3,000 a £10,000 ar gyfer prosiectau cyfalaf yng Nghymru a fydd yn annog ymgysylltiad â'u treftadaeth leol.

Tudalen wedi'i diweddaru 8 Hydref 2021

Pwysig

Nid yw Grantiau Grantiau Trysorau’r Filltir Sgwâr (Cylch 2) bellach yn derbyn ceisiadau.

Archwiliwch ein cyllid sydd ar gael.

Rydym yn ariannu ystod eang o brosiectau sy'n cysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol y DU. Dylai unrhyw brosiectau natur yng Nghymru edrych yn gyntaf ar y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur cyn gwneud cais. Ystyriwch hefyd a yw ein rhaglen Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn fwy addas ar gyfer eich prosiect.

Trosolwg

Nod y rhaglen grant hon yw cefnogi prosiectau cyfalaf:

- yn helpu i gysylltu cymunedau â'r dreftadaeth ar garreg eu drws
- yn darparu allbynnau a buddion diriaethol i bobl leol

Ariennir y rhaglen hon ar y cyd gan Cadw - gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru - a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Rydym yn cynnig grantiau o £3,000 i £10,000. Cyfanswm cyllideb y rhaglen ariannu hon yw £360,000

Mae profiad y cyfyngiadau yn ystod 2020 a 2021 mewn ymateb i coronafeirws (COVID-19) wedi bod yn atgof pwerus o werth a phwysigrwydd yr amgylchedd lleol i gymunedau. Gall gysylltu â threftadaeth a natur fod yn hanfodol ar gyfer cynnal llesiant meddyliol a chorfforol personol.

Hoffem adeiladu ar y rownd gyntaf o grantiau a gynigir trwy Grantiau Trysorau’r Filltir Sgwâr a helpu pobl i gryfhau eu cysylltiadau â'u hardal leol. P'un a ydynt yn byw mewn dinas, tref neu gefn gwlad, gall pawb elwa o'r dreftadaeth sydd i'w chael o fewn chwarter awr i'w drws ffrynt.

Gwahoddiad i archwilio'ch ardal leol

Mae Grantiau Tysorau'r Filltir Sgwâr yn wahoddiad i rannu ac archwilio'r dreftadaeth ar garreg eich drws ac i ddathlu unigrywiaeth eich ardal leol a'i chymunedau amrywiol.

Trwy rannu straeon am y lleoedd bob dydd o'n cwmpas a darganfod am y gorffennol, rydym yn cryfhau ein cysylltiadau â'r gymuned o'n cwmpas ac yn creu mwy o ymdeimlad o le, cymuned a pherthyn.

Mae pob cornel o Gymru wedi'i gwneud a'i siapio gan y nifer fawr o bobl sydd wedi byw a gweithio yno. Eu hetifeddiaeth yn y gymuned yw ein treftadaeth heddiw.

- prosiectau a gyflwynir yng Nghymru yn unig
- dylid gwario'r rhan fwyaf o'r grant ar gostau sy'n gysylltiedig â chyfalaf (mân gostau trwsio ac uwchraddio; gwaith corfforol ar raddfa fach; prynu offer, ac ati)

Dyddiadau allweddol

- agor ar gyfer ceisiadau tan **hanner dydd (12pm)** ar **4 Hydref 2021**
- penderfyniadau ddiwedd **Tachwedd 2021**
- hysbysebu ymgeiswyr am benderfyniadau ym mis **Rhagfyr 2021**
- rhaid i brosiectau bara dim hwy na **12 mis** a rhaid iddynt gwblhau erbyn diwedd **Rhagfyr 2022** fan bellaf

Gweminarau

Angen help i wneud cais? Byddwn yn cynnal cyfres o weminarau ar-lein ar gyfer ymgeiswyr ym mis Awst a mis Medi. Edrychwch ar dudalen Cymru am ddyddiadau digwyddiadau.

Gwneud cais am Grantiau Trysorau'r Filltir Sgwâr

Expand All accordions

Pwy all ymgeisio?

Bydd y Gronfa'n cefnogi

- sefydliadau dielw, gan gynnwys y rhai sydd eisoes yn ymwneud â hyrwyddo treftadaeth ar lefel gymunedol, a phrosiectau a arweinir gan sefydliadau'r sector cyhoeddus
- amgueddfeydd a lleoliadau neu atyniadau dan do eraill gyda phrosiectau sy'n archwilio'r dreftadaeth ar garreg eu drws
- grwpiau cymunedol nad ydynt yn seiliedig ar dreftadaeth ond sy'n dymuno archwilio a dehongli eu treftadaeth leol drwy edrych yn fanylach ar yr hyn sydd ar garreg eu drws
- sefydliadau yng Nghymru (gan gynnwys di-elw) sy'n gofalu am adeiladau hanesyddol, safleoedd ac atyniadau sy'n agor eu drysau i ymwelwyr fwy na 28 diwrnod y flwyddyn, fel addoldai hanesyddol

- perchnogion preifat treftadaeth

Perchnogion preifat treftadaeth

Mae'n rhaid i chi ei gwneud yn glir sut y bydd budd cyhoeddus eich prosiect treftadaeth yn drech nag unrhyw fudd preifat. Bydd angen i chi ddangos i ni fod eich prosiect:

- yn cynyddu mynediad y cyhoedd yn sylweddol ac ymgysylltu â'r cyhoedd â threftadaeth
- ganddo frwdfrydedd a chefnogaeth gyhoeddus glir
- angen buddsoddiad gan y Loteri Genedlaethol

Mae'n rhaid i'r gweithgaredd a ariennir fod yn rhad ac am ddim i'w gyrchu, gwahodd aelodau lleol o'r gymuned a cheisio ymgysylltu â'r aelodau hynny o'r gymuned a allai elwa fwyaf ohono.

Expand All accordions

Coronafeirws (COVID-19)

Wrth gynllunio eich prosiect, bydd angen i chi ystyried a dilyn gofynion ar gyfer cadw pellter cymdeithasol a mesurau sy'n gysylltiedig â COVID sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

Dylech sicrhau na fydd unrhyw weithgarwch arfaethedig yn eich prosiect yn risg ychwanegol sylweddol os bydd canllawiau'r Llywodraeth ar ymbellhau cymdeithasol yn mynd yn fwy cyfyngedig.

Expand All accordions

Yr Iaith Gymraeg

Mae'n **rhaid** i chi ystyried y Gymraeg ym mhob agwedd ar eich gwaith a dweud wrthym sut y byddwch yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r Gymraeg ac yn adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru.

Bydd angen i chi ddangos sut y byddwch yn cynnig darpariaeth ddwyieithog yng nghyllideb a chynllun eich prosiect. Dylech gynnwys y gyllideb i'w chyfieithu o dan y categori costau 'Arall' yn adran costau prosiect y ffurflen gais.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, ymholiadau, neu os oes angen cymorth arnoch, cysylltwch â cymorthcymraeg@heritagefund.org.uk.

Expand All accordions

Beth rydyn ni'n chwilio amdano

Nod y rhaglen grant hon yw cefnogi prosiectau **sy'n helpu i gysylltu cymunedau â threftadaeth yn eu hardal leol.** Gall treftadaeth fod yn unrhyw beth o'r gorffennol yr ydych yn ei werthfawrogi ac am ei drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

Bydd y pwyslais ar brosiectau sy'n annog ymgysylltu â'ch lle lleol, gan gynnwys adeiladau, safleoedd a henebion, tirweddau, parciau a gerddi. Gallai'r rhain fod yn brosiectau sy'n annog edrych yn fanylach ar yr amgylchedd adeiledig, neu sy'n datblygu ymwybyddiaeth o'r hanes sydd wedi'i guddio o dan ein traed. Efallai eu bod yn brosiectau sy'n galluogi rhannu straeon personol am eich lle.

Rydym hefyd yn mynd ati i annog prosiectau sy'n anelu at ddod o hyd i werth mewn lleoedd nad ydynt fel arfer yn cael eu hystyried yn rhai hanesyddol, ond sy'n creu cysylltiadau cryfach rhwng treftadaeth ac ymdeimlad trigolion o le a chymuned. Nid yw treftadaeth yn ymwneud â chestyll nac adeiladau rhestredig yn unig. Gall hefyd fod yn stryd fawr leol i chi, y siop gornel, y dafarn leol, olion pwll glo lleol neu'r blwch post.

Byddwn yn ariannu prosiectau sy'n sicrhau allbynnau a manteision pendant ac yn ymgysylltu pobl leol â threftadaeth ar garreg eu drws, megis gwaith corfforol ar raddfa fach fel codi placiau neu baneli dehongli.

Bydd prosiectau hefyd yn gymwys i gael arian os byddwch yn ymgymryd â gweithgareddau sy'n cynnwys y gymuned ehangach yn eich treftadaeth ac yn arwain at greu allbynnau fel arddangosfeydd a llwybrau cerdded. Gallai'r gweithgareddau gynnwys creu arwyddion llwybrau cerdded, murluniau neu arddangosfeydd ffenestri dros dro. Gallent hefyd gynnwys datblygu adnoddau digidol, er enghraifft mapiau rhyngweithiol, fideos, arddangosfeydd a phodlediadau.

Rydym yn cydnabod bod straeon haenog ym mhob lle, ac rydym yn annog prosiectau sy'n ceisio rhannu dehongliadau amrywiol o dreftadaeth, er enghraifft gan wahanol genedlaethau neu bobl o grwpiau a chymunedau llaith.

Gall lleoedd fod ag ystyron gwahanol i wahanol bobl, ac rydym yn annog straeon a rennir am fannau a rennir. Gallai hen safle glofa sydd bellach wedi'i ailddefnyddio fel llwybr beicio mynydd fod â gwerth ac ystyr gwahanol i gr?p hanes lleol neu bobl ifanc sy'n defnyddio'r llwybr.

Mae arwyddocâd, safbwyntiau a straeon gwahanol yr un lle hwn yn bwysig i'w cipio a'u rhannu. Anogir prosiectau sy'n archwilio'r gwahanol ystyron hyn ac yn annog pobl i weld safbwyntiau gwahanol i wneud cais.

Canlyniadau blaenoriaeth

Mae canlyniad yn ganlyniad i'r hyn y mae eich prosiect yn ei wneud. Mae'n newid sy'n digwydd, yn hytrach na gweithgaredd neu wasanaeth rydych chi'n ei ddarparu (sef allbynnau). Y ffordd hawsaf o ddisgrifio canlyniad yw egluro sut mae'n wahanol i allbwn.

- Plât o fwyd yw **allbwn** cinio coginio. Mae'r **canlyniad** yn berson llawn a bodlon.
- **Allbwn** athro yw nifer penodol o wersi a gyflwynir mewn blwyddyn. Y **canlyniad** yw myfyrwyr hapusach a doethach sy'n fwy abl i lwyddo.

Pan fyddwch yn cynllunio eich prosiect, mae'n bwysig iawn eich bod yn gwahanu'r allbwn (er enghraifft, 'adeiladu man arddangos'), o'r canlyniad (er enghraifft, 'sicrhau bod dwywaith cymaint o bobl o'r gymuned leol yn ymgysylltu â'u straeon eu hunain').

Byddwn yn blaenoriaethu prosiectau treftadaeth lleol a fydd yn cyflawni'r canlyniadau blaenoriaeth canlynol:

- bydd ystod ehangach o bobl yn ymwneud â threftadaeth (gorfodol)

A

- bydd yr ardal leol yn lle gwell i fyw, gweithio neu ymweld

Dylai prosiectau hefyd ystyried cynaliadwyedd amgylcheddol hirdymor.

Nid ydym yn disgwyl i'ch prosiect gyflawni unrhyw un o'n canlyniadau ariannu eraill ac ni fyddwn yn ystyried unrhyw wybodaeth ychwanegol am ganlyniadau a ddarparwch yn ystod ein proses asesu.

Yr edefyn cyffredin i bob cais yw ysbrydoli mwy o bobl i edrych yn fanylach ar eu lleoedd lleol.

Os bydd gormod o geisiadau, byddwn yn blaenoriaethu cyllid i brosiectau sy'n bodloni'r canlynol yn gryf:

- sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth. Er enghraifft, os ydych yn sefydliad nad yw'n dreftadaeth, byddem yn eich annog i bartneru â chymdeithas hanes leol neu amgueddfa.
- prosiectau sy'n dathlu amrywiaeth cymunedau ac yn helpu i adrodd straeon ein cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru
- prosiectau treftadaeth lleol sy'n cyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac yn annog cynulleidfaoedd heb eu cynrychioli i gymryd rhan yn eu treftadaeth leol
- prosiectau sy'n gallu dangos eu bod wedi ymgynghori'n dda â'r bobl y maent yn bwriadu ymgysylltu â hwy

Expand All accordions

Beth allwn ariannu

Byddwn yn ariannu prosiectau sy'n sicrhau allbynnau a manteision pendant ac yn ymgysylltu â phobl leol â threftadaeth ar garreg eu drws.

Er enghraifft, gallech gynnwys costau ar gyfer:

- **mân welliannau neu waith atgyweirio**: er enghraifft, llwybrau cerdded neu lwybrau cyffredinol
- **mân waith corfforol awyr agored:** er enghraifft, placiau a phaneli
- **deunyddiau arddangos:** er enghraifft, paneli dehongli, cypyrddau
- **allbynnau digidol:** gallai hyn fod yn ddelweddau digidol, ffeiliau sain neu ddata, gwefan gyda deunydd treftadaeth, ap, neu ffilm a wneir gan ddefnyddio technoleg ddigidol. Rydym yn annog prosiectau digidol i ddefnyddio llwyfannau cyhoeddus presennol i rannu eu cynnwys yn hytrach na chreu gwefannau newydd y mae angen eu rheoli'n barhaus.
- **offer:** er enghraifft, offer recordio a chamera, gliniaduron neu dabledi
- **deunyddiau:** er enghraifft, pethau y gallai fod eu hangen arnoch i alluogi dehongli ar sail y celfyddydau fel murlun neu arddangosfeydd ffenestr dros dro
- **gweithgareddau:** ymgysylltu â'r gymuned ehangach yn eich treftadaeth a chreu allbynnau prosiect diriaethol, fel datblygu cynnwys ar gyfer arddangosfa neu lwybrau cerdded. Dylai eich gweithgareddau gysylltu â ffocws treftadaeth eich prosiect a gored i anghenion y bobl rydych am weithio gyda nhw.

- **hwyluso neu fewnbwn proffesiynol:** cefnogi ymgysylltu â'r gymuned a/neu greu allbwn prosiect diriaethol

Ni allwn dalu'r costau ar gyfer y canlynol:

- swyddi staff presennol neu gostau sefydliadol
- grantiau i unigolion nad ydynt yn berchen ar dreftadaeth, fel artistiaid hunangyflogedig, hwyluswyr ac ati
- statudol a/neu gyfrifoldebau cyfreithiol
- hyrwyddo achos neu gredoau sefydliadau gwleidyddol neu ffydd
- TAW adenilladwy (Treth ar Werth)
- costau ar gyfer unrhyw weithgaredd sydd wedi digwydd cyn dyfarnu grant
- prosiectau gweithgaredd yn unig heb unrhyw allbwn diriaethol
- atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau hanesyddol, henebion neu gofebion yn fawr
- prosiectau sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar berfformiadau untro, digwyddiadau neu wyliau
- prynu eitemau, fel gwisgoedd ailddeddfu, lle nad yw hyn yn hwyluso gwell dealltwriaeth o'r lle lleol
- prosiectau sy'n canolbwyntio ar thema nad yw wedi'i chysylltu'n uniongyrchol â lle lleol. Er enghraifft, hanes person amlwg neu hanes rygbi, oni bai ei fod yn chwarae rhan unigryw yn eich lle.

Ni fyddwn yn ariannu prosiectau gweithgaredd yn unig drwy'r rhaglen grant hon ac yn disgwyl i'r rhan fwyaf o'r grant gael ei wario ar eitemau cyfalaf a gwaith cysylltiedig. Byddem yn disgwyl i'ch costau gweithgarwch fod yn ddim mwy na 30%.

Gwybodaeth arall am gost y prosiect y mae angen i chi ei gwybod:

- Rhaid gwario'r holl arian erbyn diwedd mis **Rhagfyr 2022**.
- Gallwch wneud cais am 100% o gostau'r prosiect.
- Dylech ystyried cynnwys arian wrth gefn bach i dalu am unrhyw gostau neu godiadau nas rhagwelwyd.
- Cynnwys cyllideb ar gyfer cyfieithu.
- Cofiwch gynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chydnabyddiaeth grant.
- Bydd disgwyl i brosiectau gynnal eu gwerthusiad eu hunain felly gwnewch yn si?r eich bod yn cynnwys unrhyw gostau ar gyfer hyn yn eich cyllideb. Rydym yn argymell eich bod yn cynnwys cyllideb ar gyfer dim llai na 2% o gyfanswm cost eich prosiect.

Expand All accordions

Sut fyddwn ni'n asesu eich cais

Pan fyddwn yn asesu ceisiadau, byddwn yn ystyried a yw eich prosiect yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn yr adran 'yr hyn rydym yn chwilio amdano' ar y dudalen ganllaw hon.

Bydd ein hasesiad hefyd yn ystyried amrywiaeth o ffactorau sy'n berthnasol i'n holl gyllid drwy ein rhaglen agored.

Byddwn ond yn ariannu prosiectau sy'n:

- yn canolbwyntio'n glir ar dreftadaeth leol yng Nghymru

- yn gwario'r rhan fwyaf o'r grant ar gostau sy'n gysylltiedig â chyfalaf (gwaith corfforol ar raddfa fach, mân gostau trwsio ac uwchraddio, prynu offer, ac ati)
- nodi'n glir yr anghenion a'r cyfleoedd y bydd y prosiect yn mynd i'r afael â nhw
- cyflawni ein canlyniad cynhwysiant gorfodol yn gryf o gynnwys ystod ehangach o bobl â threftadaeth ac ystyried canlyniad blaenoriaeth yr ardal leol: 'bydd yr ardal leol yn lle gwell i fyw, gweithio neu ymweld ag ef'
- mynd i'r afael â'r gofyniad gorfodol ar gynaliadwyedd amgylcheddol
- cynnig gwerth am arian
- ystyried pandemig presennol COVID-19 ac ystyried unrhyw risgiau neu effeithiau posibl y bydd hyn yn eu cael ar gyflawni prosiectau. Gweler Blaenoriaethau Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol 2021-22.
- ganddynt gynllun clir gyda dechrau, canol a diwedd diffiniedig
- sydd heb ddechrau
- yn para uchafswm o 12 mis a bydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd Rhagfyr 2022 fan bellaf

Byddwn yn blaenoriaethu prosiectau sy'n cynnig gwerth uchel am arian ac yn cyflawni nodau'r rhaglen ariannu yn gryf.

Os nad yw eich prosiect yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y rhaglen hon, gallech fod yn gymwys ar gyfer rhai o'n rhaglenni grant eraill.

Oni bai bod angen i ni wirio unrhyw beth gyda chi, mae'n annhebygol y byddwch yn clywed gennym eto nes i ni roi gwybod i chi am y penderfyniad.

Fel sefydliad sy'n rhoi arian cyhoeddus, rydym yn cynnal rhai gwiriadau ar y wybodaeth a roddwch i ni pan fyddwch yn gwneud cais. Er enghraifft, efallai y byddwn yn gwirio eich hanes gyda ni neu'n cynnal gwiriadau hunaniaeth neu dwyll.

Sut y byddwn yn gwneud penderfyniadau

Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried gan banel mewnol a gynullir yn arbennig at y diben yma. Gwneir penderfyniadau **ddiwedd mis Tachwedd 2021**, a byddwch yn cael gwybod drwy e-bost ym mis **Rhagfyr 2021**.

Expand All accordions

Sut i ymgeisio

I ddechrau eich cais, ewch i'n gwefan i greu cyfrif neu fewngofnodi i'n gwasanaeth Cael cyllid ar gyfer prosiect treftadaeth.

- Dewiswch 'Dechrau cais newydd' a dewiswch £3,000-£10,000 fel yr ystod i wneud cais amdano.
- **Dechreuwch deitl eich prosiect gyda'r #15Minutes2** helpu i nodi eich cais yn gywir. Er enghraifft: **#15Minutes2** – Rhannu treftadaeth tref Aberystwyth. Mae terfyn o 15 gair.
- Llenwch y ffurflen gais a ddarperir a chyflwynwch eich dogfennau ategol. Yn ein gwasanaeth 'Cael cyllid ar gyfer prosiect treftadaeth' newydd, gellir dod o hyd i **nodiadau cymorth ac arweiniad wrth lenwi'r ffurflen gais.**
- Cyflwyno'r cais a'r dogfennau ategol i ni ar-lein cyn **hanner dydd ar 4 Hydref 2021**

Gallwch gysylltu â'n tîm ymgysylltu ag unrhyw ymholiadau drwy e-bostio cymru@heritagefund.org.uk neu ffonio 029 2034 3413.

Gwneud cais am Grantiau Trysorau'r Filltir Sgwâr (Rownd 2)

Expand All accordions

Dogfennau ategol

Bydd angen i chi gyflwyno rhai dogfennau ategol gyda'ch cais. Dylid darparu pob dogfen ar ffurf ddigidol ynghyd â'ch ffurflen gais ar-lein.

Peidiwch â chyflwyno unrhyw ddogfennau ychwanegol yn ychwanegol at y rhai y gofynnir amdanynt isod.

Ni fyddwn yn gallu asesu eich cais os na fyddwn yn derbyn yr holl wybodaeth ofynnol.

1. **Dogfen lywodraethol (er enghraifft, cyfansoddiad)**

Nid oes angen i ni weld eich dogfen lywodraethol os ydych yn sefydliad cyhoeddus (er enghraifft, awdurdod lleol) neu'n berchennog preifat ar dreftadaeth.

Dylai eich dogfen lywodraethol gynnwys y canlynol:

- enw a nodau eich sefydliad
- datganiad sy'n atal eich sefydliad rhag dosbarthu incwm neu eiddo i'w aelodau yn ystod ei oes
- datganiad sy'n cadarnhau, os caiff eich sefydliad ei ddirwyn i ben neu ei ddiddymu, y bydd asedau'r sefydliad yn cael eu dosbarthu i sefydliad elusennol neu ddi-elw arall ac nid i aelodau'r sefydliad
- y dyddiad y cafodd ei fabwysiadu a llofnod eich cadeirydd (neu berson awdurdodedig arall)

Ni allwn dderbyn eich cais os nad yw eich cyfansoddiad yn cynnwys yr uchod. Mae'n rhaid i chi gael o leiaf dau berson ar eich bwrdd neu bwyllgor rheoli nad ydynt yn gysylltiedig â gwaed neu briodas neu sy'n byw yn yr un cyfeiriad. Gwnewch yn si?r bod eich prosiect yn dod o fewn nodau eich sefydliad. Mae'r Comisiwn Elusennau yn darparu canllawiau ar greu dogfen lywodraethol.

2. **Cyfrifon**

Dylech gynnwys eich cyfrifon archwiliedig neu wedi'u cymeradwyo a'u gwirio gan gyfrifydd yn ddiweddar.

Os ydych yn sefydliad sydd newydd ei ffurfio ac nad oes gennych set o gyfrifon archwiliedig, cyflwynwch eich tri datganiad banc diwethaf neu lythyr gan eich banc yn cadarnhau eich bod wedi agor cyfrif.

Nid oes arnom angen eich cyfrifon os ydych yn sefydliad cyhoeddus (er enghraifft, awdurdod lleol).

3. **Llythyrau o gefnogaeth i'ch prosiect (dim mwy na chwech, os yw'n berthnasol)**

Mae llythyrau cymorth yn ffordd dda o ddangos i ni eich bod wedi siarad â phobl eraill a chynulleidfaoedd newydd, ac yn dangos bod ganddynt ddiddordeb ac ymrwymiad i'ch prosiect.

Anfonwch lythyrau o gefnogaeth atom gan y bobl sy'n ymwneud â'ch prosiect, yn hytrach na datganiadau cefnogol cyffredinol. Er enghraifft, os ydych yn bwriadu cyflwyno gweithdai mewn clybiau ieuenctid lleol yna bydd llythyr o gefnogaeth yn dangos i ni eu bod am gymryd rhan.

Os yw'n bosibl, dylai llythyrau fod ar bapur pennawd neu wedi'u llofnodi.

Os nad yw perchennog y dreftadaeth yn gwneud y cais (er enghraifft, gweithgarwch sy'n digwydd ar dir preifat), byddem yn disgwyl gweld llythyr o gefnogaeth gan y perchennog yn rhoi caniatâd a mynediad i'r dreftadaeth.

Expand All accordions

Beth fyddai'n digwydd wedi hynny

Byddwn yn rhoi gwybod i chi am y penderfyniad ar eich cais drwy e-bost ym **mis Rhagfyr 2021.**

Os bydd eich cais yn llwyddiannus

Mae'n rhaid i chi aros i dderbyn Caniatâd i Ddechrau gennym cyn dechrau eich prosiect. Bydd angen i chi gyflwyno ffurflen ar-lein a rhoi'r canlynol i ni:

- manylion eich cyfrif banc (gorfodol)
- prawf o ofynion perchnogaeth/lesddaliad (os yw'n berthnasol)
- manylion am ganiatâd statudol a/neu drwyddedau sy'n ofynnol ac a gafwyd (os yw'n berthnasol)
- cadarnhad o gyllid partneriaeth (os yw'n berthnasol)

Bydd angen cyfrif banc ar eich sefydliad. Mae'n rhaid i'r enw ar y cyfrif banc hwn gyfateb yn union i enw'r sefydliad sy'n gwneud y cais.

Unwaith y bydd gennych Ganiatâd i Ddechrau, byddwn yn talu eich grant llawn ymlaen llaw.

Telerau'r grant

Byddwn yn gofyn i chi ymrwymo i'n telerau grant safonol.

Mae hyd telerau'r grant yn dibynnu ar y math o brosiect a natur y sefydliadau sy'n gwneud cais. Bydd telerau'r grant yn para o ddyddiad y Caniatâd i Ddechrau tan:

- gweithgaredd: y dyddiad y daw'r prosiect i ben (a elwir yn Ddyddiad Cwblhau'r Prosiect)
- cyfalaf: bum mlynedd ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect

- digidol: bum mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect

Os bydd eich cais yn aflwyddiannus

Mae'r broses asesu yn gystadleuol ac ni allwn ariannu'r holl geisiadau o ansawdd da a gawn. Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, efallai yr hoffech ystyried rhai o'n rhaglenni grant eraill.

Expand All accordions

Cydnabod eich grant

Os dyfernir grant i chi, bydd angen i chi gydnabod Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a chymorth Llywodraeth Cymru / Cadw o dan enw'r rhaglen Grantiau Trysorau'r Filltir Sgwâr (Rownd 2).

Dylid defnyddio logos Llywodraeth Cymru a Cadw gyda'i gilydd i gydnabod cyllid. Os nad yw hyn yn bosibl (er enghraifft ar ddeunyddiau dehongli bach iawn) yna gellir defnyddio logo Cadw ar ei ben ei hun.

Byddwn yn rhoi mwy o arweiniad ar hyn os bydd dyfarniad.

Ar gyfer holl symiau'r grant, **rydym yn disgwyl gweld cydnabyddiaeth yn cael ei chynllunio o ddechrau eich prosiect.** Os ydych yn creu deunyddiau ffisegol (fel byrddau dehongli) neu ddeunyddiau cydnabod pwrpasol, gallwch gynnwys costau ar gyfer y rhain o dan bennawd costau 'Cyhoeddusrwydd a hyrwyddiadau' yn adran costau prosiect y cais.

Disgwyliwn i chi greu deunyddiau sy'n unol â gofynion cynaliadwyedd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio deunyddiau ecogyfeillgar/wedi'u hailgylchu ac adeiladu cydnabyddiaeth i ardaloedd sy'n bodoli eisoes (er enghraifft ysgythru i ffenestri gwydr, ymgolli mewn metel a phren).

Dysgwch fwy am ofynion Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer cydnabod eich grant.

Expand All accordions

Gofynion cyfreithiol a pholisi

Gofynion perchnogaeth

Disgwyliwn i chi fod yn berchen ar unrhyw eiddo (tir, adeiladau, eitemau treftadaeth neu eiddo deallusol) yr ydych yn gwario'r grant arno. Fel arfer, rydym yn disgwyl i berchennog y dreftadaeth lenwi'r ffurflen gais ac, os byddwch yn llwyddiannus, derbyn y grant ac adrodd ar gynnydd. Os nad yw perchennog y dreftadaeth yn gwneud y cais, yna gofynnwn iddynt ymrwymo i delerau'r grant.

Fel eithriad, os yw eich prosiect yn cynnwys gweithgarwch i ymgymryd â rheoli treftadaeth neu unrhyw weithgaredd arall sy'n ymwneud ag eiddo nad ydych yn berchen arno, byddwn yn derbyn llythyr gan y perchennog presennol yn rhoi

caniatâd i'r prosiect fynd yn ei flaen. Dylech anfon y llythyr hwn atom gyda'ch cais.

Allbynnau digidol

Mae gennym ofynion penodol, a nodir yn ein telerau grant safonol, ar gyfer 'allbynnau digidol' a gynhyrchir fel rhan o unrhyw brosiect. Rydym yn defnyddio'r term 'allbwn digidol' i gwmpasu unrhyw beth rydych chi'n ei greu yn eich prosiect mewn fformat digidol sydd wedi'i gynllunio i roi mynediad i dreftadaeth neu i helpu pobl i ymgysylltu â threftadaeth a dysgu amdani.

Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys ffotograffau, testun, meddalwedd, cynnwys gwe ac apiau, cronfeydd data, modelau 3D, recordiadau sain a fideo.

Nid yw eitemau a grëwyd wrth reoli'r prosiect, er enghraifft negeseuon e-bost rhwng aelodau'r tîm a chofnodion cyfarfodydd, wedi'u cynnwys yn y gofyniad.

Os byddwch yn derbyn grant rhwng £3,000 a £10,000, rhaid i bob allbwn digidol fod:

- 'ar gael' (mae'r allbynnau ar gael am ddim ar-lein a gallwch roi mynediad i'r ffeiliau digidol ar alw) am bum mlynedd o ddyddiad cwblhau'r prosiect
- 'gellir ei defnyddio' (mae'r allbynnau'n gweithredu fel y bwriadwyd ac yn cael eu diweddaru'n ddiweddaraf)
- 'agored' (mae allbynnau digidol wedi'u trwyddedu i'w defnyddio gan eraill o dan drwydded 'Attribution 4.0 International (CC-BY4.0)' ac eithrio cod a metadata, y dylid eu rhyddhau o dan Ymroddiad Parth Cyhoeddus oni bai ein bod wedi cytuno fel arall.

Rydym yn disgwyl prosiectau:

- i sicrhau bod eu hallbynnau digidol yn hygyrch
- i ddefnyddio data ac offer agored lle bo modd
- cyfrannu allbynnau digidol at gasgliadau treftadaeth priodol a phrosiectau gwybodaeth agored

Darllenwch ein canllawiau ar gyfer prosiectau digidol i gael rhagor o wybodaeth.

Expand All accordions

Rhagor o wybodaeth i'ch helpu i wneud cais

Derbyn grant: yn dweud wrthych beth sydd angen i chi ei wneud os ydych yn llwyddiannus a bod gennych fwy o fanylion am ein gofynion

Telerau safonol y grantiau: amlinellu telerau ein grantiau

Canllawiau arferion da: cyngor ar ystod o bynciau i'ch helpu i gyflawni prosiect o ansawdd uchel

Canllawiau gwerthuso: gwybodaeth am sut i gynnal gwerthusiad o'ch prosiect.

Expand All accordions

Newidiadau i'r canllaw yma

Byddwn yn adolygu'r canllawiau hyn yn rheolaidd ac yn ymateb i adborth defnyddwyr. Rydym yn cadw'r hawl i wneud newidiadau yn ôl y gofyn. Byddwn yn cyfleu unrhyw newidiadau cyn gynted â phosibl drwy'r dudalen we hon.

Dosbarthwyd Grantiau Trysorau'r Filltir Sgwâr (Rownd 2) gan y Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol mewn partneriaeth â Cadw - gwasanaeth yr amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru.





